**ADRODDIAD**
**Y PWYLLGOR AR YSMYGU MEWN MANNAU CYHOEDDUS**

## Rhagair y Cadeirydd

Ar ddechrau'r 1950au, daeth y Pwyllgor ar Lygru'r Aer, dan gadeiryddiaeth Syr Hugh Beaver, i'r casgliad fod mwrllwch Llundain yn 1952 wedi cyfrannu at y nifer uchel o bobl oedd yn marw dan effeithiau broncitis, niwmonia ac afiechydon anadlol eraill. Yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn, pasiodd y Llywodraeth Ddeddf Aer Glân 1956 i ostwng lefelau swlffwr deuocsid. Aeth hanner canrif heibio cyn inni sylweddoli'r niwed a wneir i'n hiechyd o ganlyniad i anadlu i mewn fwg tybaco amgylcheddol mewn mannau caeedig, a chyn inni weithredu i leihau'r perygl hwnnw. Mae'r Pwyllgor ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ceisio'r pwerau i sicrhau ein bod yn gallu cael aer glân dan do.

Sefydlwyd y Pwyllgor ym mis Mehefin 2004, ac un o'i dasgau cyntaf oedd diffinio "mannau cyhoeddus". Ein diffiniad gweithredol oedd "adeilad cyfan neu ran ohono y gall y cyhoedd fynd i mewn iddo, un ai drwy hawl neu gyda chaniatâd perchennog neu ddeiliad yr adeilad." Yn dilyn ymweliad y Pwyllgor ag Iwerddon, ac yn wyneb pwysau'r dystiolaeth a gawsom ar effeithiau niweidiol mwg tybaco amgylcheddol, barn y Pwyllgor yw y dylid ehangu'r diffiniad i gynnwys y gweithle.

Yr wyf yn falch bod adroddiad y Pwyllgor wedi derbyn cytundeb unfrydol y Pwyllgor. Credaf y gallai ein hargymhellion gael effaith sylweddol ar iechyd pobl Cymru. Yr ydym bellach yn disgwyl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor, a disgwyliwn i'r Llywodraeth yn San Steffan ddeddfu i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu'r argymhellion.

Ar ran y pwyllgor, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi rhoi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor er i hynny olygu, yn achos rhai ohonynt, deithio o rannau pell o'r Deyrnas Unedig. Yr ydym yn ddiolchgar iawn hefyd i bawb yn Iwerddon, y Llywodraeth a'i hasiantaethau, y siopau gwin a'r undebau, a rannodd eu profiadau â ni pan ymwelsom ag Iwerddon ym mis Chwefror.

**Val Lloyd AC**
**Cadeirydd**

**Mai 2005**

**Cynnwys**


| | Tudalen |
|---|---|
| **Aelodaeth y Pwyllgor** | iii |
| **1. Cyflwyniad** | 1 |
| **2. Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion** | 3 |
| **3. Y Dystiolaeth** | |
| **3.2 Risg Mwg Tybaco Amgylcheddol i Iechyd** | 5 |
| **3.23 Effeithiolrwydd Ffaniau Echdynnu a Chyfarpar Awyru o ran Tynnu Mwg Tybaco o'r Amgylchedd** | 9 |
| **3.30 Effaith Economaidd Gwaharddiad** | 11 |
| **3.45 Effaith Gwaharddiad ar Wneud Ysmygu'n Llai Cyffredin** | 14 |
| **3.50 Dadleuon Hawliau Dynol mewn Perthynas ag Ysmygwyr a'r Rhai Nad Ydynt yn Ysmygu** | 15 |
| **3.54 Gorfodi** | 15 |
| **Atodiad: Ymatebwyr i ymgynghori ysgrifenedig** | 22 |

**Aelodau'r Pwyllgor ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus**

| | |
|---|---|
| Val Lloyd *(Cadeirydd)* | Dwyrain Abertawe |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ar 22 Ionawr 2003, pleidleisiodd y Cynulliad Cyntaf o blaid cynnig oedd "*yn galw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno Mesur cyhoeddus yn gysylltiedig â Chymru a fyddai'n darparu bod y Cynulliad, drwy offeryn statudol, yn gallu gwahardd pobl rhag ysmygu tybaco mewn adeiladau cyhoeddus sydd wedi'u nodi yn yr offeryn hwnnw. Pwrpas Mesur o'r fath ac unrhyw offeryn statudol a fyddai'n cael ei wneud o dan y Mesur fyddai sicrhau bod gweithwyr a'r cyhoedd yn dod i lai o gysylltiad â mwg tybaco, y profwyd ei fod yn beryglus iawn i fywydau pobl.*"[1] Cafodd y cynnig ei gefnogi gan bob plaid.

1.2 Ar 8 Mehefin 2004, penderfynodd yr Ail Gynulliad sefydlu pwyllgor ychwanegol dan Reol Sefydlog 8 i roi cyngor ar wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus.[2]

1.3 Yn y cynnig, rhoddwyd y manylion canlynol am gylch gwaith y Pwyllgor:

> i) ystyried tystiolaeth gyfredol ar faterion perthnasol, gan gynnwys y peryglon i iechyd o fwg tybaco yn yr amgylchedd a'r effaith ar yr economi o gyfyngu ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus;
>
> ii) adolygu'r datblygiadau yn y DU ac Iwerddon sy'n ymwneud â chyflwyno cyfyngiadau ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus (gan gynnwys y trafodaethau ar Fesurau Aelodau Preifat y Farwnes Finlay a'r Arglwydd Faulkner; yr ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ddatganoli pwerau i awdurdodau lleol i gyflwyno gwaharddiad ar ysmygu yn y gwaith ac mewn mannau cyhoeddus; canlyniad ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus, a'r profiad o roi'r gwaharddiad ar ysmygu yn y gweithle ar waith yn Iwerddon);
>
> iii) ystyried y profiadau mewn gwledydd eraill lle mae gwaharddiad wedi'i gyflwyno;
>
> iv) rhoi adroddiad ar ei gasgliadau i'r Cynulliad erbyn 25 Mai 2005.

1.4 Cyfarfu'r Pwyllgor am y tro cyntaf ar 15 Gorffennaf, ac yn y cyfarfod hwnnw cytunwyd ynghylch rhaglen waith a chynlluniau ar gyfer ymgynghori cyhoeddus. Dyma'r materion a nodwyd ar gyfer ymgynghori:

- Y peryglon i iechyd o fwg tybaco yn yr amgylchedd.
- Yr effaith ar yr economi o gyfyngu ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus.
- Effaith gwaharddiad ar leihau nifer y bobl sy'n ysmygu, h.y. a fyddai gwaharddiad yn annog pobl i roi'r gorau i ysmygu neu beidio â dechrau ysmygu.

- Effeithiolrwydd ffaniau echdynnu a mathau eraill o gyfarpar awyru ar gyfer tynnu mygdarth tybaco o'r amgylchedd.

- Dadleuon hawliau dynol o safbwynt ysmygwyr a'r rhai nad ydynt yn ysmygu.

- Gorfodi.

1.5 Cafodd y Pwyllgor 97 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Cyfarfu'r Pwyllgor wyth o weithiau i gymryd tystiolaeth lafar ac i drafod y dystiolaeth a roddwyd iddo. Ym mis Chwefror 2005 ymwelodd yr Aelodau â Gweriniaeth Iwerddon i asesu effaith y gwaharddiad ar ysmygu yn y gweithle a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2004.

## 2. Crynodeb o'r casgliadau a'r Argymhellion

2.1 Dyma gasgliadau'r Pwyllgor:

- ceir tystiolaeth ddiwrthdro fod mwg tybaco yn yr amgylchedd yn niweidiol i iechyd;
- nid yw cyfarpar awyru yn gallu tynnu'r o'r amgylchedd y rhan fwyaf o'r gronynnau sy'n niweidiol i iechyd;
- nid oes unrhyw dystiolaeth y byddai cyflwyno gwaharddiad yn cael effaith negyddol yn gyffredinol ar yr economi;
- er cydnabod hawl pobl i ysmygu cynnyrch sydd ar gael yn gyfreithiol, dylid ymarfer yr hawl hon mewn modd cyfrifol. Dylai mwyafrif aelodau'r cyhoedd nad ydynt yn ysmygu allu mynd i'w gweithle, a mannau cyhoeddus eraill sy'n gaeedig, heb risg i'w hiechyd.

2.2 Mae'r Pwyllgor, felly, yn argymell:

> **1. y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru bwyso ar Lywodraeth y DU i gael y pwerau a fyddai'n ei alluogi i gyflwyno gwaharddiad ar ysmygu mewn gweithleoedd caeedig a mannau cyhoeddus caeedig (gydag eithriadau penodedig) o fewn amserlen o ddwy i dair blynedd.**
>
> Dylid gwneud eithriadau ar gyfer:
>
> - anheddau preifat, a allai fod yn weithle hefyd;
> - mannau dynodedig sy'n rhan o unedau arhosiad hir mewn ysbytai;
> - mannau dynodedig mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio;
> - mannau dynodedig mewn carchardai;
> - ystafelloedd gwely dynodedig neu gyfres o ystafelloedd mewn gwestai a lletyau gwely a brecwast, a ddefnyddir yn unig gan ysmygwr neu ysmygwr gydag eraill a gytunodd iddo ef neu iddi hi ysmygu, yn unol â pholisïau ysmygu'r rheolwyr;

Ni ddylai cyflogwyr fod â hawl i ofyn i rai nad ydynt yn ysmygu wasanaethu neu lanhau mannau dynodedig.

2. Byddai'r Pwyllgor yn annog y diwydiannau twristiaeth a chroeso i baratoi ar gyfer gwaharddiad drwy hyrwyddo buddion cael amgylchedd di-fwg, sy'n gymorth i ddenu rhagor o bobl nad ydynt yn ysmygu.

3. Cyn i'r gwaharddiad gael ei gyflwyno, dylid cynyddu'r ymdrech i addysgu'r cyhoedd a chynyddu'r ymdrech i annog a chefnogi pobl i roi'r gorau i ysmygu. Dylid targedu mesurau arloesol penodol at blant a phobl ifanc i beri iddynt ymatal rhag arbrofi a mynd yn gaeth i dybaco.

4. Dylai gorfodi fod yn gyfrifoldeb a berthyn i awdurdodau lleol.

5. Dylid sefydlu trefniadau ar gyfer gorfodi a monitro mewn pryd ar gyfer y broses weithredu. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sefydlu llinell gymorth ar gyfer cydymffurfio, ac ystyried defnyddio arfau eraill megis gwefan ryngweithiol i ymdrin ag ymholiadau.

6. Dylid dechrau trafodaethau cyn gynted ag y bo modd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdodau lleol ynghylch goblygiadau'r gwaith o safbwynt adnoddau.

7. Cyn gynted ag y gwneir penderfyniad i gyflwyno'r gwaharddiad, dylid cael ymgyrch ar y cyd i roi gwybodaeth i'r cyhoedd. Dylai hyn barhau dros flwyddyn gyntaf y broses weithredu. Dylid ystyried comisiynu cwmni cysylltiadau cyhoeddus i ymgymryd â pheth o'r gwaith. Dylai'r ymgyrch gwmpasu materion megis:

- cyflwyno negeseuon craidd am beryglon mwg ail law; agweddau cadarnhaol tuag at ysmygwyr a chymorth iddynt roi'r gorau i ysmygu;
- taflenni gwybodaeth i wahanol gynulleidfaoedd, yn cynnwys cyflogwyr, gwestywyr, tafarnwyr a chyflogedigion;
- briffio'r wasg a'r cyfryngau;
- dulliau arloesol o gyfleu'r neges, er enghraifft drwy friffio sefydliadau a phersonél priodol ar draws Cymru i weithredu fel llefarwyr lleol ac i fod yn rhagweithredol â'r cyfryngau lleol;
- nodi dulliau arloesol o gyfathrebu negeseuon;
- datblygu deunyddiau hysbysebu.

8. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu grŵp llywio yn cynnwys y prif randdeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, byrddau iechyd lleol, undebau llafur, cyflogwyr a'r sector gwirfoddol i sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin ynghylch y materion dan sylw a'u bod yn cael eu cyflwyno mewn ffordd gyson. Gellid cael is-grwpiau ar gyfer datblygu deunyddiau penodol i'r sector ac ar gyfer eu profi yn y maes.

9. Dylid cael adnoddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau sy'n helpu pobl i roi'r gorau i ysmygu, a dylid hyrwyddo'r gwasanaethau hynny ymhellach. Dylai'r gwasanaethau a'r llinell gymorth gael eu briffio'n dda a chael digon o adnoddau i gwrdd â'r galw uwch.

10. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod y gwaith o weithredu'r gwaharddiad yn cael ei gysylltu â gweithgareddau eraill sy'n rheoli tybaco.

11. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda chyrff yn y diwydiant twristiaeth ac yn arbennig y fasnach drwyddedig, i annog a chefnogi'r trawsnewid i amgylcheddau di-fwg ac i ddatblygu'r cyfleoedd marchnata a ddaw yn sgîl hynny.

## 3. Y Dystiolaeth

3.1 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniodd yn ysgrifenedig ac ar lafar, ynghyd â'i ganfyddiadau o'i ymweliad ag Iwerddon ac adroddiadau tri phwyllgor rhanbarth y Cynulliad a roddodd sylw i'r pwnc mewn cyfarfodydd ar ddechrau 2005. Mae'r dystiolaeth yn cynnwys gwybodaeth ar weithredu gan Senedd a Llywodraeth y DU, Senedd a Gweithrediaeth yr Alban ac mewn gwledydd eraill.

### Risg Mwg Tybaco Amgylcheddol i Iechyd

3.2 Yr oedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth y cyfeiriwyd ati i ddangos bod mwg tybaco amgylcheddol yn niweidiol i iechyd yn deillio o chwe dogfen allweddol. Mae awduron y dogfennau wedi defnyddio tystiolaeth o nifer o astudiaethau a adolygwyd gan gymheiriaid, ac maent wedi cyflawni dadansoddiadau empirig i ddangos tystiolaeth achosol o'r effeithiau ar iechyd. Cynhyrchwyd y pum astudiaeth hyn dros gyfnod o chwe blynedd ac mae canfyddiadau pob un ohonynt yn ailadrodd canfyddiadau'r adroddiadau eraill.

3.3 Yn adroddiad 1997 Asiantaeth Amddiffyn yr Amgylchedd yng Nghaliffornia, daethpwyd i'r casgliad fod y dystiolaeth yn ddigon helaeth i ddangos perthynas achosol rhwng y cysylltiad â mwg tybaco amgylcheddol a datblygiad problemau mewn babanod; syndrom marwolaeth sydyn babanod; rhai mathau o salwch anadlol; canser yr ysgyfaint a'r sinws trwynol; ac afiechyd cardiofasgwlaidd. Canfu'r adroddiad hefyd dystiolaeth oedd yn awgrymu cysylltiad achosol ag erthylu digymell, canser serfigol a phroblemau eraill sy'n gysylltiedig ag anadlu.[3]

3.4 Yn 1998 cyhoeddodd y Pwyllgor Gwyddonol ar Dybaco ac Iechyd (SCOTH) adroddiad a gomisiynwyd gan bedair Adran Iechyd y DU.[4] Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad fod dod i gysylltiad â mwg tybaco amgylcheddol:

- yn achosi canser yr ysgyfaint a'i fod, i'r rhai a gafodd gysylltiad hirdymor, yn cynyddu'r risg oddeutu 20-30%;
- yn achosi isgemia'r galon, a phe bai'r amcangyfrifon cyhoeddedig cyfredol o faint y risg cymharol yn cael eu dilysu, byddai cysylltiad o'r fath â mwg tybaco yn berygl sylweddol i iechyd y cyhoedd;
- yn achosi salwch anadlol difrifol ac ymosodiadau asthmatig mewn babanod a phlant pan fydd rhieni'n ysmygu yn eu cwmni;
- yn gysylltiedig â syndrom marwolaeth sydyn babanod, prif achos marwolaeth ôl-enedigol ym mlwyddyn gyntaf bywyd. Bernir bod y cysylltiad yn un o achos ac effaith;
- yn debygol o fod â chysylltiad achosol â haint clust ganol plant, ac yn gysylltiedig â rhieni'n ysmygu.

3.5 Ar 16 Tachwedd 2004, cyhoeddodd SCOTH adroddiad diweddaraf yn adolygu'r dystiolaeth ers ei adroddiad yn 1998.[5] Daeth i'r casgliad bod y wybodaeth am natur beryglus ysmygu ail law wedi cydgrynhoi dros y pum mlynedd flaenorol, a bod y dystiolaeth hon yn cadarnhau bod ysmygu ail law yn risg difrifol i iechyd y cyhoedd.

3.6 Yn 1999, yn dilyn ymgynghoriad, cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd ei gasgliadau ar fwg tybaco amgylcheddol ac iechyd plant.[6] Canfu bod:

> mwg tybaco amgylcheddol yn fygythiad real a sylweddol i iechyd plant, a'i fod yn achosi marwolaeth a dioddefaint ledled y byd. Mae dod i gysylltiad â mwg tybaco amgylcheddol yn achosi amrywiaeth eang o effeithiau iechyd gwael mewn plant, gan gynnwys heintiau'r llwybr anadlol is megis niwmonia a broncitis, pesychu a gwichian, asthma gwaeth, a haint y glust ganol. Hefyd, pan fo plant yn dod i gysylltiad â mwg tybaco amgylcheddol, gall hynny gyfrannu at haint cardiofasgwlaidd mewn oedoliaeth ac at amhariad niwroymddygiadol.

3.7 Daeth yr adroddiad i'r casgliad hefyd fod mamau sy'n ysmygu yn ystod beichiogrwydd yn un o brif achosion syndrom marwolaeth sydyn babanod, ac yn un o brif achosion effeithiau iechyd eraill a gofnodwyd yn dda, gan gynnwys babanod sy'n pwyso llai ar eu genedigaeth a'u hysgyfaint yn gweithio'n llai effeithiol. Yn ychwanegol, sylwodd yr ymgynghoriad ar hyn: os yw benywod beichiog yn cael cysylltiad â mwg tybaco amgylcheddol, gall hynny achosi gostyngiad ym mhwysau eu babanod ar eu genedigaeth, a bod cysylltiad rhwng babanod a mwg tybaco amgylcheddol yn gallu cyfrannu at risg syndrom marwolaeth sydyn babanod.

3.8 Yn ei adroddiad ar gyfer 2002, rhoddodd Prif Swyddog Meddygol Lloegr adran ar syndrom marwolaeth sydyn babanod.[7] Dywed ei gyflwyniad i'r adran:

> Mae dod i gysylltiad â mwg sigarennau pobl eraill (ysmygu ail law, ysmygu goddefol mwg tybaco amgylcheddol) yn gallu: cynyddu risg cael clefydau cysylltiedig ag ysmygu megis canser a chlefyd y galon; gosod straen ychwanegol ar y galon ac effeithio ar allu'r corff i gymryd ocsigen i mewn a'i ddefnyddio; ysgogi ymosodiadau asthma; cynyddu risg syndrom marwolaeth sydyn babanod; a niweidio plant a babanod yn fwy hyd yn oed nag oedolion.

3.9 Yn 2002, ar y cyd â'r Ganolfan Adnoddau Rheoli Tybaco, cyhoeddwyd adroddiad gan Fwrdd Gwyddoniaeth ac Addysg Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA).[8] Crynhowyd yn yr adroddiad y wybodaeth wyddonol a meddygol ar natur a graddfa effeithiau ysmygu goddefol ar iechyd:

- Mewn oedolion, mae mwg ail law yn cynyddu'r risg o gael canser yr ysgyfaint o tua 20-30 y cant a risg clefyd coronaidd y galon o 25-35 y cant. Mewn plant, mae cysylltiad â mwg ail law yn cynyddu'r risg o gael salwch y llwybr anadlol is, asthma, haint y glust ganol a syndrom marwolaeth sydyn babanod.
- Mae rhai grwpiau yn y boblogaeth yn arbennig o agored i'r peryglon: plant, benywod beichiog, pobl y mae ganddynt eisoes afiechyd cardofasgwlaidd neu serebro-fasgwlaidd, a'r rhai ag asthma ac anhwylderau anadliadol eraill. Yn ogystal, mae'r rhai sydd mewn grwpiau economaidd-

gymdeithasol is yn wynebu mwy o risg o ddod i gysylltiad â'r mwg ail law na'r rhai sydd mewn grwpiau mwy ffyniannus.

- Nid oes unrhyw lefelau o gysylltiad â mwg tybaco yn ddiogel, a gellir gweld effeithiau niweidiol ar lefelau cysylltiad isel.

3.10 Cyfeiriodd Ash Cymru a'r papur o Brifysgol Aberdeen at adroddiad yr Asiantaeth Ryngwladol ar gyfer Ymchwil ar Ganser, a gynhyrchwyd yn 2002 a'i gyhoeddi yn 2004 gan Sefydliad Iechyd y Byd. Yn yr adroddiad hwnnw cafwyd adolygiad o'r cysylltiadau rhwng ysmygu goddefol a chanser a daethpwyd i'r casgliad bod mwg tybaco yn garsinogenig i bobl. Dengys yr adroddiad hwn y consensws gwyddonol rhyngwladol.[9]

3.11 Mae'r astudiaethau canlynol yn bwysig hefyd.

3.12 Mewn astudiaeth yn Helena, Montana, UDA, edrychwyd ar y dystiolaeth i weld a oedd unrhyw newid yn nifer y rhai a dderbyniwyd i'r ysbyty i gael triniaeth ar gyfer cnawdnychiad myocardaidd (trawiad calon) tra oedd deddf leol a ataliai ysmygu mewn lleoedd cyhoeddus ac mewn gweithleoedd mewn grym.[10] Canfu'r astudiaeth fod y nifer o bobl o Helena a dderbyniwyd i'r ysbyty dros y cyfnod chwe mis o waharddiad wedi gostwng yn sylweddol, ond bod nifer y rhai a dderbyniwyd i'r un ysbyty o'r tu allan i Helena wedi cynyddu. Pan dynnwyd y gwaharddiad, cynyddodd nifer y bobl o Helena a dderbyniwyd i'r ysbyty. Mewn sylwadau ar yr astudiaeth awgrymwyd bod yr astudiaeth, er mai un fach oedd hi, yn hoelio sylw ar is-set o lenyddiaeth ar fwg ail-law a'i ganlyniadau. Mae'r llenyddiaeth yn dangos, fe ymddengys, fod cysylltiadau cymharol fach â thocsinau mewn mwg tybaco yn achosi, fe ymddengys, gynnydd annisgwyl o fawr yn y risg o gael afiechyd cardofasgwlaidd aciwt.[11]

3.13 Dangosodd yr astudiaeth MONICA yn yr Alban fod pobl nad oeddent yn ysmygwyr oedd yn dod i gysylltiad â mwg tybaco amgylcheddol yn eu gweithleoedd yn bennaf yn dangos gostyngiad sylweddol yn eu gallu ysgyfeiniol.[12]

3.14 Dangosodd astudiaeth fod rhagor o weithwyr mewn adeiladau a ganiatâi cwsmeriaid i ysmygu yn cael symptomau anadlol a llidus o gymharu â gweithwyr mewn gweithleoedd di-fwg. Yn yr astudiaeth hon, a roddodd sylw i'r crynodiadau cotinin ym mhoer y gweithwyr a amlygwyd, cysylltwyd hynny â risgiau digymell o gael canser a chlefyd y galon.[13]

3.15 Mae'r Athro David Cohen, o Brifysgol Morgannwg, wedi ymgymryd ag astudiaeth sy'n rhoi model o'r effeithiau economaidd a'r effeithiau ar iechyd a ddeuai yn sgîl gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus. Yn y model, rhagwelir fel a ganlyn:

> "Amcangyfrifir mai canlyniad dileu cysylltiad â mwg tybaco amgylcheddol mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru fydd gostyngiad blynyddol mewn marwolaethau o ganser yr ysgyfaint a chlefyd coronaidd y galon o 253, gyda gostyngiad pellach posibl o 153 yn y marwolaethau a ddigwyddai o ganlyniad i strôc ac afiechydon anadlol.

> Efallai y bydd gostyngiad pellach mewn marwolaethau blynyddol o rhwng 60 a 180 os bydd ysmygu gweithredol yn lleihau o ganlyniad i'r gwaharddiad ar ysmygu."[14]

3.16 Mewn sylwadau ar flwyddyn gyntaf gweithleoedd di-fwg, dywed adroddiad Swyddfa Rheoli Tybaco, Iwerddon:

- mewn astudiaeth o dafarndai yn Nulyn, dadansoddwyd y lefelau cysylltiad mewn 24 o dafarndai cyn y gwaharddiad ac wedyn. Gwelir bod gostyngiad sylweddol yn lefelau'r gronynnau – 53 y cant yn Ave PM10, ac 87.6 y cant yn Ave PM2.5;

- mae astudiaeth o 81 o bobl a weithiai mewn bariau cyn i'r ddeddf ar fannau di-fwg gael ei chyflwyno ac astudiaeth ohonynt flwyddyn yn ddiweddarach yn dangos gostyngiad yn y lefelau o garbon monocsid yn eu hanadl. Dengys y canlyniadau, o ran y 56 o weithwyr y cwblhawyd ac y dadansoddwyd eu profion, fod gostyngiad o 45 y cant ar gyfer y rhai nad ydynt yn ysmygu a gostyngiad o 36 y cant ar gyfer cyn-ysmygwyr.[15]

3.17 Mewn astudiaeth a wnaed ar gyfer *Smokefree London*, a gyhoeddwyd yn y *British Medical Journal*, amcangyfrifwyd y nifer o farwolaethau o ganlyniad i ysmygu goddefol yn y DU. Canfu bod ysmygu goddefol yn y gweithle yn debygol o fod yn gyfrifol am 617 o farwolaethau'r flwyddyn, gan gynnwys 54 yn y diwydiant croeso. Byddai hyn yn cyfateb i un rhan o bump o bob marwolaeth o ganlyniad i ysmygu goddefol yn y boblogaeth gyffredinol rhwng 20 oed a 64 oed, a hyd at hanner marwolaethau o'r fath ymhlith gweithwyr yn y diwydiant croeso.[16]

3.18 O blith y sefydliadau a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor, dim ond FOREST,[17] Cymdeithas y Cynhyrchwyr Tybaco,[18] a Chymdeithas Genedlaethol Gweithredwyr Peiriannau Sigarét[19] a hawliai nad oes tystiolaeth bod mwg tybaco amgylcheddol yn gallu bod yn dra niweidiol i iechyd rhai nad ydynt yn ysmygu.

3.19 Cyfeiriwyd at bedair astudiaeth wyddonol i gefnogi'r farn hon. Nododd y Pwyllgor fod tri o'r rhain wedi eu cynhyrchu ar ddechrau'r 1990au cyn i lawer o'r dystiolaeth o niwed gael ei sefydlu. Fodd bynnag, yn 2003, cyhoeddodd y *British Medical Journal* astudiaeth hydredol a ddilynodd garfan fawr.[20] Yr oedd y garfan yn cynnwys dros 188,000 o oedolion a ddilynwyd o ddiwedd 1959 hyd 1998, a chanolbwyntiwyd yn arbennig ar 35,500 nad oedd wedi ysmygu erioed ond oedd â phriod oedd yn ysmygu. Daeth yr adroddiad i'r casgliad canlynol:

> Nid yw'r canlyniadau [sef canlyniadau'r astudiaeth] yn cefnogi perthynas achosol rhwng mwg tybaco amgylcheddol a marwolaethau tybaco-gysylltiol, er nad ydynt yn cau allan effaith fach. Efallai fod y gydberthynas rhwng y cysylltiad, ar y naill law, â mwg tybaco amgylcheddol a chlefyd coronaidd y galon a chanser yr ysgyfaint, ar y llaw arall, yn llawer gwannach nag a dybiwyd yn gyffredinol.

3.20 Mewn sylwadau ar yr astudiaeth, tynnwyd sylw at rai o gyfyngiadau methodolegol yr astudiaeth, yn arbennig maint bach y sampl a'r cyfyngau hyder llydan iawn, ac awgrymwyd bod angen ailadrodd yr astudiaeth mewn ardal ddaearyddol fwy, gan ddefnyddio dulliau dadansoddi cyn/wedyn ac ardaloedd rheoli allanol.[21]

3.21 Yn dilyn llythyrau beirniadol yn ymateb i'r adroddiad, cyhoeddwyd sylwadau golygyddol yn amddiffyn penderfyniad y cyfnodolyn i gyhoeddi'r canfyddiadau, gan ddweud bod y cwestiwn a yw ysmygu goddefol yn lladd yn un anodd gan fod y dulliau'n annigonol, ac nad oedd y cwestiwn wedi ei ateb yn bendant.[22]

**Casgliad**

3.22 *Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod tystiolaeth ddiwrthdro sy'n dangos bod cysylltiad â mwg tybaco amgylcheddol yn risg sylweddol i iechyd rhai nad ydynt yn ysmygu. Pe bai cysylltiad pobl â mwg amgylcheddol mewn mannau cyhoeddus caeedig yn cael ei ddileu, byddai cryn enillion iechyd yn deillio o hynny.*

**Effeithiolrwydd Ffaniau Echdynnu a Chyfarpar Awyru o ran Tynnu Mwg Tybaco o'r Amgylchedd**

3.23 Honnodd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth yn gwrthwynebu unrhyw waharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus y gallai cyfarpar awyru amddiffyn rhag effeithiau niweidiol mwg tybaco. Rhoddwyd tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor gan ddau dyst â phrofiad uniongyrchol o awyru a chyfarpar glanhau'r aer.

3.24 Mewn tystiolaeth lafar dywedodd Cymdeithas Cynhyrchwyr Glanhawyr Aer ei bod hi'n bosibl cynhyrchu peiriannau sy'n tynnu gronynnau a nwyon. Mae'r peiriannau a ddefnyddir mewn theatrau llawdriniaeth yn gallu cynhyrchu safon aer sydd o burdeb 99.997 yn nhermau tynnu gronynnau.[23]

3.25 Cyflwynodd Dr Andrew Geens, o Brifysgol Morgannwg, wybodaeth am brofion a wnaeth. Dywedodd fod ei astudiaethau ef wedi dangos bod ansawdd aer yn gallu bod yn anodd ei ddiffinio a'i fesur, ond, os yw'r cwsmer yn fodlon talu, y gall y diwydiant, os caiff ei friffio'n gywir, ddarparu'r cyfarpar.[24] Nid oedd ei astudiaethau ef wedi cael eu hadolygu gan gymheiriaid.

3.26 Honnodd Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) na all awyru amddiffyn rhag risgiau iechyd ysmygu goddefol.[25] Rhoesant wybod i'r Pwyllgor nad yw awyru yn symud y mater gronynnol mân sy'n cael ei anadlu ddyfnaf i mewn i'r ysgyfaint ac i mewn i'r thoracs, a bod mwg tybaco wedi ei hidlo yn meddu ar yr un potensial â mwg heb ei hidlo i achosi canser mewn system gelloedd. Ymhlith y rhai a gefnogai eu barn yr oedd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd,[26] Cymdeithas Iechyd Cyhoeddus Cymru[27] ac Ash Cymru.[28] [29] [30] Hawliai Ash Cymru a'r Athro Gerard Hastings y byddai angen llif aer tebyg i dwnnel gwynt neu gorwynt er mwyn bod yn effeithiol mewn unrhyw fodd.

3.27 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth hon ac a allai awyru roi amddiffyniad digonol i rai nad ydynt yn ysmygu yn y gweithle a mannau cyhoeddus eraill.

**Casgliadau**

3.28 *Derbyniodd y Pwyllgor na allai awyru symud pob sylwedd tybaco niweidiol o'r amgylchedd. Byddai'r sylweddau hyn yn cael eu hanadlu i mewn gan rai nad ydynt yn ysmygu cyn iddynt gyrraedd y cyfarpar. Yn ogystal, er mwyn i gyfarpar weithredu ar y lefelau effeithiolrwydd y cafodd ei gynllunio ar eu cyfer, yr oedd yn rhaid ei gynnal a'i ddefnyddio mewn modd priodol. Byddai gorfodi hyn yn gostus ac yn anodd. Felly nid yw'r Pwyllgor yn derbyn bod awyru yn ddatrysiad effeithiol nac ymarferol.*

*3.29 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod hawl pobl i ysmygu yn eu cartref eu hunain a bod angen rhoi ystyriaeth arbennig i ysmygwyr sy'n byw mewn sefydliadau gofal hirdymor. Yn yr un modd, dylai pobl sy'n aros mewn gwestai a thai gwely a brecwast allu ysmygu yn yr ystafelloedd a ddefnyddir ganddynt hwy yn unig, neu a ddefnyddir ganddynt hwy ac eraill sy'n cydsynio iddynt ysmygu, **os bydd polisïau'r rheolwyr yn caniatáu hynny**. Ni ddylid gofyn i rai nad ydynt yn ysmygu wasanaethu a glanhau ystafelloedd o'r fath.*

**Argymhelliad**

**1. Mae'r Pwyllgor, felly, yn argymell y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru bwyso ar Lywodraeth y DU i gael y pwerau a fyddai'n ei alluogi i gyflwyno gwaharddiad ar ysmygu mewn gweithleoedd caeedig a mannau cyhoeddus caeedig gyda'r eithriadau canlynol:**

- **anheddau preifat, a allai fod yn weithleoedd hefyd;**
- **mannau dynodedig mewn unedau arhosiad hir mewn ysbytai;**
- **mannau dynodedig mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio;**
- **mannau dynodedig mewn carchardai;**
- **ystafelloedd gwely dynodedig neu gyfres o ystafelloedd mewn gwestai a lletyau gwely a brecwast, a ddefnyddir yn unig gan ysmygwr neu ysmygwr gydag eraill a gytunodd iddo ef neu iddi hi ysmygu, yn unol â pholisïau ysmygu'r rheolwyr.**

**Ni ddylai cyflogwyr fod â hawl i ofyn i rai nad ydynt yn ysmygu wasanaethu neu lanhau mannau dynodedig.**

**Dylai'r gwaharddiad ar ysmygu gael ei gyflwyno o fewn amserlen o ddwy i dair blynedd.**.

**Effaith Economaidd Gwaharddiad**

3.30 Yr oedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a'r cyflwyniadau i'r Pwyllgor ar effaith economaidd gwaharddiad yn gysylltiedig â'r diwydiant tybaco a'r diwydiant croeso.

**Y Diwydiant Tybaco**

3.31 Ychydig o dystiolaeth ddiriaethol a gafodd y Pwyllgor ynghylch effaith gwaharddiad ar y diwydiant tybaco ei hun. Dywedodd Cynghrair y Gweithwyr Tybaco mewn tystiolaeth fod tuedd eisoes i ffatrïoedd cynhyrchu tybaco yn y DU, o ganlyniad i fecaneiddio a rhai cyfyngiadau ar allforio, gael eu cau a'u lleihau. Yr oeddent yn pryderu y byddai rhagor o swyddi'n cael eu colli.[31]

3.32 Yn Iwerddon y mae gwerthiant sigarennau wedi gostwng ers i'r gwaharddiad gael ei gyflwyno. Mynegodd Amicus yn Iwerddon fod pob diwydiant cynhyrchu yn Iwerddon ar y goriwaered. Yn y chwe blynedd diwethaf roedd deg o weithfeydd cynhyrchion tybaco yn y weriniaeth wedi cau neu leihau, a bod hynny wedi arwain at ostyngiad o 50 y cant mewn swyddi yn y diwydiant. Dywedodd Amicus fod ysmygu tybaco wedi gostwng mewn ymateb i nifer o fentrau iechyd cyhoeddus a threth uwch ar sigarennau. Yr oedd cynhyrchwyr yn symud eu gweithfeydd cynhyrchu i Ddwyrain Ewrop lle ceir marchnad o hyd a lle mae costau llafur yn isel.[32]

**Y Sector Croeso**

3.33 Awgrymodd Cynghrair y Gweithwyr Tybaco fod y gwaharddiadau proffil uchel yn Efrog Newydd a Dulyn wedi arwain at golli miloedd o swyddi mewn tafarndai a bariau.[33] Dywedodd Cymdeithas y Cynhyrchwyr Tybaco wrth y Pwyllgor fod astudiaeth a gynhaliwyd ar ran Cymdeithas Masnach Drwyddedig yr Alban wedi rhagweld y byddai gostyngiad o saith y cant yng ngwerth gwerthiannau'r bariau, a gostyngiad o ddeg y cant yng ngwerth y cyfaint a gostyngiad o 5.9 mewn cyflogaeth ar ôl i waharddiad gael ei gyflwyno yn yr Alban.[34]

3.34 Yn ystod eu hymweliad ag Iwerddon ym mis Chwefror, cyfarfu aelodau o'r Pwyllgor â chynrychiolwyr y Vitners Federation o Dde Orllewin Iwerddon. Dywedasant fod tua 7,500 o swyddi wedi eu colli yn y sector croeso ers i'r gwaharddiad gael ei gyflwyno, ond yr oedd nifer o ffactorau eraill wedi peri bod y fasnach yn mynd drwy amser anodd pan gyhoeddwyd y gwaharddiad. Yn Sir Kerry mae 380 o dafarndai ac yr oedd y tafarnwyr wedi dweud bod gostyngiad yn eu busnes o 25 i 30 y cant ers cyflwyno'r gwaharddiad. Yr oedd deg o ddeiliaid trwydded wedi gwerthu eu trwyddedau.[32] Nid oedd y Pwyllgor yn gallu cadarnhau hyn.

3.35 Dywedodd Tafarnwyr Trwyddedig (Cymru) Cyf yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor y byddai dichonolrwydd 50 y cant o'r tafarndai yng Nghymru yn wynebu risg pe bai gwaharddiad yn cael ei gyflwyno. Mae 21 y cant o'r tafarndai yn rhai a ddefnyddir ar gyfer yfed cymdeithasol, a chânt eu rhedeg gan y tafarnwr heb fawr ddim cymorth cyflogedig. Amcangyfrifid bod 65 y cant

o gwsmeriaid y tafarndai hyn yn ysmygwyr. Byddai mwyafrif y tafarndai hyn yn cau neu'n methu talu incwm yn cyfateb i'r isafswm cyflog. Dywedir mai'r hyn sydd i gyfrif am y trosiant isel yn y tafarndai hyn yw ei bod yn well gan bobl brynu eu diodydd yn rhatach mewn lleoedd eraill ar gyfer ei yfed gartref. Mewn arolwg o dafarnwyr yn y Rhondda, dywedodd y mwyafrif o'r rhai a holwyd y byddai'n rhaid iddynt ddiswyddo staff, a dywedodd 42 o dafarnwyr (52.5 y cant) ei bod yn debygol y byddai eu tafarn yn cau.

3.36 Amcangyfrifodd y Tafarnwyr Trwyddedig y byddai'r effaith ar fasnach yn y 50 y cant o dafarndai oedd yn weddill yn amrywio, ond amcangyfrifent y byddai'n ostyngiad o tua 10 i 15 y cant, a swyddi'n cael eu colli o ganlyniad.

3.37 Byddai'r Tafarnwyr Trwyddedig yn derbyn cyfyngiadau ar ysmygu megis y rhai a gynigwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr.[35]

3.38 Cyfeiriodd yr Athro Gerard Hastings o Brifysgol Stirling at 21 o astudiaethau a archwiliodd yr effaith gyllidol ar dafarndai a thai bwyta pe baent yn troi'n lleoedd di-fwg. Yn yr adroddiad, a gyhoeddwyd gan y VicHealth Centre for Tobaco Control yn Awstralia, cafwyd adolygiad o 97 astudiaeth a wnaeth ddatganiadau am effaith economaidd polisïau di-fwg ar y diwydiant croeso.[36] Yr oedd 21 o'r rhain wedi diwallu'r meini prawf caeth ar gyfer ansawdd methodolegol. O'r 21 astudiaeth hyn, nid oedd unrhyw un wedi canfod effaith negyddol. Dywedodd hefyd nad oedd unrhyw un o'r astudiaethau a ddangosai'r gwrthwyneb wedi'i gyhoeddi mewn cyfnodolyn gwyddonol.[37]

3.39 Gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd cafwyd dyfyniad o erthygl, a gyhoeddwyd yn y *New York Times* ar 1 Ebrill 2004, yn dweud bod refeniw trethi busnes o leoliadau croeso wedi cynyddu 12 y cant yn y naw mis cyntaf ar ôl cyflwyno'r gwaharddiad.

3.40 Yn y gwaith ymchwil yn y 15 dinas gyntaf yn yr Unol Daleithiau oedd wedi gwahardd ysmygu yn y mannau caeedig mewn tai bwyta, ni chanfuwyd unrhyw effaith ystadegol o bwys, un ai yng ngwerthiant crynswth tai bwyta neu yn y gymhareb rhwng gwerthiannau mewn dinasoedd di-fwg a gwerthiannau mewn dinasoedd cymharol.[38] Canfuwyd canlyniadau tebyg mewn astudiaeth yng Ngogledd Carolina.[39]

3.41 Mewn trafodaethau gyda Sean Power TD, Gweinidog Gwladol, Adran Iechyd a Phlant, a swyddogion, cadarnhawyd bod nifer o ffactorau wedi arwain at ostyngiad ym masnach y tafarndai. Yr oedd tuedd i symud oddi wrth yfed mewn tafarndai a bariau lle mae diodydd yn ddrud, i brynu alcohol yn rhatach mewn archfarchnadoedd a siopau trwyddedig i'w yfed gartref. Yr oedd bragwyr wedi cyflwyno codiad pris i gyd-ddigwydd â'r gwaharddiad. Yr oedd deddfau yfed / gyrru wedi eu tynhau.[32] Fodd bynnag, nid oedd ofnau ynghylch colli swyddi yn y diwydiant croeso wedi eu gwireddu. Yr oedd Dulyn wedi hyrwyddo ei hun fel "a breath of fresh air".[32] Yn ôl Fáilte Ireland, yr awdurdod twristiaeth, cafwyd mwy nag erioed o ymwelwyr yn 2004 a lefel gyson o gyflogaeth yn y sector croeso yn 2004 o gymharu â 2003. Nid yw'r

gwaharddiad ar ysmygu erioed wedi bod yn uchel ar eu Baromedr Twristiaeth, sy'n adlewyrchu prif ofidiau pobl yn y busnes twristiaeth.[40]

3.42 Mae'r model a baratowyd gan yr Athro David Cohen i ragweld tueddiadau yn yr economi ac iechyd ar gyfer Cymru yn amcangyfrif y byddai'r effaith flynyddol ar y sector lletygarwch rywle rhwng £48 miliwn a £131 miliwn, a'r amcangyfrif mwyaf tebygol yw £42 miliwn.

3.43 Hefyd mae ei fodel yn amcangyfrif y bydd yr effaith economaidd ehangach fel a ganlyn:

> Amcangyfrifir bod yr arbedion i'r GIG, o ganlyniad i'r gostyngiad mewn ysmygu goddefol a gweithredol, rywle rhwng £3.5 miliwn a £10 miliwn, a'r amcangyfrif mwyaf tebygol yw £5 miliwn.
>
> Amcangyfrifir bod y cynnydd o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch mewn perthynas ag ysmygu goddefol a gweithredol rywle rhwng £3.6 miliwn a £5.2 miliwn, a'r amcangyfrif mwyaf tebygol yw £4.5 miliwn.
>
> Mae'r effeithiau economaidd ar weithleodd yn cynnwys y canlynol: gostyngiad mewn cynhyrchiant oherwydd cynnydd yn nifer y seibiannau ysmygu gan weithwyr sy'n gweithio ar hyn o bryd mewn sefydliadau heb unrhyw waharddiadau ar ysmygu (rywle rhwng £0.4 miliwn a 0) ac effeithiau cadarnhaol o arbedion a wnaed oherwydd bod llai o niwed wedi ei achosi mewn tanau a achoswyd gan ysmygu (6.0 miliwn) a chostau glanhau (£7.6 miliwn).
>
> Amcangyfrifir bod yr effaith flynyddol ar y sector lletygarwch yng Nghymru rywle rhwng -£48 miliwn a £131 miliwn, a'r amcangyfrif mwyaf tebygol yw £42 miliwn. Bydd yr effaith net ar economi Cymru, fodd bynnag, yn llai na hyn gan y bydd unrhyw newid mewn gwario yn cael ei ailddosbarthu i sectorau eraill yn yr economi neu ei ddosbarthu ohonynt.
>
> Caiff effaith gyfansawdd dileu'r cysylltiad â mwg tybaco amgylcheddol ei amcangyfrif drwy gymhwyso gwerthoedd ariannol i'r enillion iechyd (osgoi salwch ac osgoi marwolaeth) ac ychwanegu'r rhain at yr effeithiau economaidd ar y GIG a'r economi ehangach. Yr amcangyfrif mwyaf tebygol ar gyfer yr effaith flynyddol lawn yw £177 miliwn (amrediad nas disgowntiwyd = £32 miliwn i £319 miliwn). Mae hyn yn gyfartal â £66 miliwn wedi disgowntio i gymryd i ystyriaeth amseriad yr effeithiau (amrediad disgownt = £12 miliwn i £118 miliwn), gyda gwerth presennol net dros 30 mlynedd o £2,158 miliwn (amrediad gwerth presennol net = £332 miliwn i £3,903 miliwn).[14]

**Casgliad**

*3.44 O ystyried y mannau hynny lle cyflwynwyd gwaharddiadau, canfu'r Pwyllgor nad oes tystiolaeth gredadwy o effaith gyfansawdd negyddol ar y diwydiant croeso neu'r economi ehangach. Mae'n cydnabod y gallai rhai busnesau bach ei chael hi'n anodd i addasu i'r newidiadau a'r cyfleoedd a*

*ddeuai yn sgîl gwaharddiad ar ysmygu. Mae'n nodi bod nifer o'r rhain eisoes yn ymdrechu i barhau i fod yn hyfyw.*

**Argymhelliad**

> **2. Byddai'r Pwyllgor yn annog y diwydiant twristiaeth a'r diwydiant croeso i baratoi ar gyfer gwaharddiad drwy hyrwyddo'r buddion a geir o gael amgylchedd di-fwg i ddenu mwy o bobl nad ydynt yn ysmygu.**

**Effaith Gwaharddiad ar Wneud Ysmygu'n Llai Cyffredin**

3.45 Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ysgrifenedig ei bod yn rhy gynnar i asesu a fyddai gwaharddiad yn gwneud ysmygu'n rhywbeth llai cyffredin, a bod y gwaharddiadau yn Efrog Newydd ac Iwerddon yn cydredeg â chodiadau treth ar gynhyrchion tybaco.

3.46 Cyfeiriodd y BMA ac Ash Cymru at amcangyfrifon a wnaed y byddai gwaharddiad ar ysmygu yn y gweithle yn arwain at ostyngiad yng nghanran oedolion sy'n ysmygu o'r lefel bresennol o 27 y cant i 23 y cant.[41] Dywedodd Cymdeithas Iechyd y Cyhoedd mai 15 y cant yn unig sy'n ysmygu bellach yng Nghaliffornia. Yn Iwerddon mae gwerthiant sigarennau wedi gostwng ers i'r gwaharddiad gael ei gyhoeddi yn Ionawr 2003. (O 7,015.6 miliwn yn 2002 i 6,295.3 miliwn yn 2003, ac amcangyfrifwyd mai 5,330.6 miliwn fyddai'r nifer yn 2004.)[42]

3.47 Awgrymodd y BMA fod 70 i 80 y cant o bobl sy'n ysmygu yn dymuno rhoi'r gorau i'r arfer, a dywedodd Ash Cymru fod nifer y rhai sy'n ysmygu wedi gostwng lle'r oedd gwaharddiadau mewn grym.[43] [44] Cyfeiriodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd at astudiaeth o ymddygiad ac agweddau sy'n gysylltiedig ag ysmygu, ac yr oedd yr astudiaeth honno hefyd yn dangos y byddai'r rhan fwyaf o ysmygwyr yn hoffi rhoi'r gorau i ysmygu.[45] Dyfynnodd yr Athro Gerard Hastings o astudiaeth a ganfu bod ysmygwyr mewn gweithle di-fwg bron ddwy waith mor debygol o roi'r gorau i ysmygu ag yw gweithwyr eraill. Mae'r rhai nad ydynt yn rhoi'r gorau i ysmygu yn lleihau'r nifer o sigarennau a ysmygant o ddwy i dair sigarét y diwrnod.[46]

3.48 Dywedodd Ann Ludbrook, o Brifysgol Aberdeen, fod tystiolaeth o Awstralia yn dangos bod agweddau'r cyhoedd at ysmygu o flaen pobl eraill wedi newid yn dilyn gwaharddiad, a bod pobl yn ysmygu llai yn eu cartref eu hunain.[47] Dywedodd yr Athro Hastings hefyd fod tystiolaeth a ddangosai fod pobl, wrth i'r defnydd o dybaco gael ei reoli fwy, yn dangos mwy o ofal, a'u bod yn llai tebygol o ysmygu yn y cartref a pheri bod plant yn dod i gysylltiad â'r mwg.[48]

**Casgliad**

*3.49 Mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylai gwaharddiad ar ysmygu beri bod yr arfer yn llai cyffredin. Caethiwed yw ysmygu y byddai'r rhan fwyaf o ysmygwyr yn dymuno'i oresgyn. Sylwodd y Pwyllgor fod y ddeddf newydd yn Iwerddon*

*wedi cydredeg â mentrau uchel eu proffil i annog pobl i roi'r gorau i ysmygu ac i'w cefnogi wrth iddynt wneud hynny.*

**Argymhelliad**

> **3. Cyn i'r gwaharddiad gael ei gyflwyno, dylid cynyddu ymdrechion i addysgu'r cyhoedd, ac i annog pobl i roi'r gorau i ysmygu a'u cefnogi yn yr ymdrech. Dylid targedu mesurau newydd penodol at blant a phobl ifanc i'w hannog i beidio ag ysmygu ac i'w hatal rhag arbrofi a mynd yn gaeth.**

**Dadleuon Hawliau Dynol mewn Perthynas ag Ysmygwyr a'r Rhai Nad Ydynt yn Ysmygu**

3.50 Dywedodd Cynghrair y Gweithwyr Tybaco mai cynnyrch cyfreithiol yw tybaco ac na ddylai ysmygwyr gael eu difenwi a'u gwthio i'r cyrion.[49]

3.51 Cyfeiriodd Ash Cymru at Erthygl 3 Datganiad Cyffredinol o Iawnderau Dynol y Cenhedloedd Unedig sy'n datgan, "Y mae gan bawb hawl i fywyd, rhyddid a'i ddiogelwch ei hun." Mae Ash o'r farn fod mewnanadlu mwg ail law yn anfwriadol yn bygwth ansawdd bywyd a'i hyd.[50]

3.52 Dyfynnodd TUC Cymru achos Dryden yn erbyn Bwrdd Iechyd Manceinion Fwyaf. Yn yr achos hwnnw, barnodd y llys nad oedd gan y cwynwr hawl i ysmygu yn y gwaith.[51] Dadleuai Sefydliad Siartredig Iechyd Amgylcheddol y byddai herio'r gwaharddiad ar dir hawliau dynol yn debygol o fethu yng ngoleuni'r ddedfryd yn achos Markx –v-Belgium.[52]

**Casgliad**

*3.53 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod hawl pobl i ysmygu cynnyrch y gellir ei gael yn gyfreithlon. Mae o'r farn y dylid ymarfer yr hawl hon mewn modd cyfrifol. Mae hawl y rhan fwyaf o'r cyhoedd nad ydynt yn ysmygu i fedru mynd i'w gweithle neu leoedd cyhoeddus caeedig eraill heb risg i'w hiechyd yn drech na hawl ysmygwyr i ysmygu yn y lleoedd hynny.*

**Gorfodi**

3.54 O dan y ddeddfwriaeth yn Iwerddon, mae person sy'n ysmygu mewn lle gwaharddedig yn euog o drosedd. Mae preswyliwr, rheolwr neu unrhyw berson arall sy'n gyfrifol am le gwaharddedig lle digwydd y tor-cyfraith hefyd yn euog o drosedd. Gall fod yn amddiffynfa eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau cydymffurfiaeth. Cyhoeddwyd canllawiau ar gyfer dalwyr trwydded tafarndai a gweithwyr staff ynghylch y camau y dylid eu cymryd os yw rhywun yn torri'r gyfraith. Trefnodd Llywodraeth Iwerddon i linellau ffôn di-dâl gael eu hagor a bod cyfeiriadau e-byst ar gael, ac anogwyd aelodau o'r cyhoedd i gyflwyno adroddiadau am achosion o fethu cydymffurfio. Caiff pob adroddiad ei ddilyn. Yn Iwerddon, mae swyddogion iechyd amgylcheddol yn gyfrifol am orfodi yn y diwydiant lletygarwch, a chânt gefnogaeth oddi wrth y Swyddfa Rheoli Tybaco, sy'n gweithio gyda'r diwydiant. Penodwyd 40 yn

ychwaneg o swyddogion iechyd amgylcheddol i ymdrin â'r baich gwaith ychwanegol.[32]

3.55 O'r cychwyn bu cyfradd uchel o gydymffurfio yn Iwerddon. Dengys adroddiad y Swyddfa Rheoli Tybaco ar y flwyddyn gyntaf fod cyfradd gyffredinol y cydymffurfio yn 94 y cant.[15]

3.56 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)[53] a Sefydliad Siartredig Iechyd Amgylcheddol[54] yn cefnogi gwaharddiad, ac maent o'r farn mai adrannau iechyd amgylcheddol llywodraeth leol ddylai fod yn gyfrifol am orfodi. O ystyried prinder swyddogion iechyd amgylcheddol, mae'r ddau sefydliad o'r farn mai cynorthwywyr hyfforddedig neu swyddogion safonau masnach ddylai ymgymryd â'r gwaith.[54]

3.57 Ystyriai Sefydliad Siartredig Iechyd Amgylcheddol na ddylai gwaharddiad llwyr fod yn anodd i'w orfodi. Byddai gwaharddiad rhannol lle byddai ysmygu, efallai, yn cael ei ganiatáu mewn mannau wedi eu neilltuo neu fannau wedi eu hawyru, neu fannau lle nad yw bwyd yn cael ei weini, i bob pwrpas yn amhosibl i'w orfodi. Byddai angen cryn brofiad i fonitro effeithiolrwydd systemau awyru.[55]

3.58 Dywedodd CLlLC fod Cydffederasiwn Awdurdodau Lleol yr Alban wedi amcangyfrif y byddai'r costau tebygol i awdurdodau yn £6 miliwn yn ystod dwy flynedd gyntaf gwaharddiad.[56] Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydweithio'n agos â CLlLC i baratoi cynlluniau ar gyfer gweithredu a gorfodi. Rhaid i'r cynlluniau hyn gael eu datblygu a'u costio'n llawn er mwyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru allu nodi'r arian ychwanegol y bydd llywodraeth leol a phartneriaid eraill ei angen, o bosibl, i gyflawni eu hymrwymiadau.[56]

3.59 Mewn cyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd y pedwar Prif Gwnstabl yng Nghymru nad oeddent yn rhagweld y byddai'r heddlu'n cael baich ychwanegol pe bai gorfodi yn dilyn y modelau yn Iwerddon ac Efrog Newydd, lle mae gorfodi yn rhan o gyfrifoldeb asiantaethau'r amgylchedd ac iechyd cyhoeddus. Byddai'r heddlu yn cymryd rhan, pe bai angen iddynt, o dan Ddeddf Trwyddedu 1964, ac o dan y ddeddf honno mae'n ofynnol iddynt gynorthwyo i symud person o adeiladau trwyddedig ar gais y daliwr trwydded.[57]

## Casgliadau

*3.60 Mae'r Pwyllgor yn nodi barn Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd y byddai gwaharddiad rhannol bron â bod yn amhosibl i'w orfodi. Mae'r Pwyllgor yn derbyn hyn ac y mae hefyd o'r farn na fyddai gwaharddiad rhannol, lle byddai ysmygu'n cael ei ganiatáu mewn mannau neilltuedig neu fannau wedi eu hawyru, yn symud y gronynnau niweidiol i gyd nac yn eu hatal rhag ymledu i fannau gwaharddedig.*

*3.61 Mae'r Pwyllgor yn nodi bod CLlLC a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd o'r farn mai awdurdodau lleol ddylai fod yn gyfrifol am orfodi gan mai hwy sy'n gyfrifol dros iechyd amgylcheddol.*

*3.62 Mae'r Pwyllgor yn derbyn hefyd yr hyn a ddywedodd CLILC yn eu cyflwyniad: y dylai trafodaethau ar gynlluniau i orfodi a gweithredu ddechrau mewn da bryd.*

*3.63 Er nad yw llwyddiant y ddeddfwriaeth yn Iwerddon, a bod yn fanwl gywir, yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod llawer o'r llwyddiant hwnnw wedi deillio o gyfnod rhagarweiniol hir a pharatoi gofalus wedi ei gyd-gysylltu'n dda gan yr holl asiantaethau. Ystyrir bod hyn wedi bod yn allweddol i rwyddineb y gwaith o orfodi'r ddeddf.*

**Argymhellion**

**3.64. Mae'r Pwyllgor, felly, yn argymell:**

**4. Dylai gorfodi fod yn gyfrifoldeb i'r awdurdodau lleol.**

**5. Dylid sefydlu trefniadau ar gyfer gorfodi a monitro mewn pryd ar gyfer y broses weithredu. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sefydlu llinell gymorth ar gyfer cydymffurfio, ac ystyried defnyddio arfau eraill megis gwefan ryngweithiol i ymdrin ag ymholiadau.**

**6. Dylid dechrau trafodaethau cyn gynted ag y bo modd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdodau lleol ynghylch goblygiadau'r gwaith o safbwynt adnoddau.**

**7. Cyn gynted ag y gwneir penderfyniad i gyflwyno'r gwaharddiad, dylid cael ymgyrch ar y cyd i roi gwybodaeth i'r cyhoedd. Dylai hyn barhau dros flwyddyn gyntaf y broses weithredu. Dylid ystyried comisiynu cwmni cysylltiadau cyhoeddus i ymgymryd â pheth o'r gwaith. Dylai'r ymgyrch gwmpasu materion megis:**

- **cyflwyno negeseuon craidd am beryglon mwg ail law; agweddau cadarnhaol tuag at ysmygwyr a chymorth iddynt roi'r gorau i ysmygu;**
- **taflenni gwybodaeth i wahanol gynulleidfaoedd, yn cynnwys cyflogwyr, gwestywyr, tafarnwyr a chyflogedigion;**
- **briffio'r wasg a'r cyfryngau;**
- **dulliau arloesol o gyfleu'r neges, er enghraifft drwy friffio sefydliadau a phersonél priodol ar draws Cymru i weithredu fel llefarwyr lleol ac i fod yn rhagweithredol â'r cyfryngau lleol;**
- **nodi dulliau arloesol o gyfathrebu negeseuon;**
- **datblygu deunyddiau hysbysebu.**

**8. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu grŵp llywio yn cynnwys y prif randdeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, byrddau iechyd lleol, undebau llafur, cyflogwyr a'r sector gwirfoddol i sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin**

**ynghylch y materion dan sylw a'u bod yn cael eu cyflwyno mewn ffordd gyson. Gellid cael is-grwpiau ar gyfer datblygu deunyddiau penodol i'r sector ac ar gyfer eu profi yn y maes.**

**9. Dylid cael adnoddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu, a dylid hyrwyddo'r gwasnaethau hynny ymhellach. Dylai'r gwasanaethau a'r llinell gymorth gael eu briffio'n dda a chael digon o adnoddau i gwrdd â'r galw uwch.**

**10. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod y gwaith o weithredu'r gwaharddiad yn cael ei gysylltu â gweithgareddau eraill sy'n rheoli tybaco.**

**11. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda chyrff yn y diwydiant twristiaeth ac yn arbennig y fasnach drwyddedig i annog a chefnogi'r trawsnewid i amgylcheddau di-fwg ac i ddatblygu'r cyfleoedd marchnata a ddaw yn sgîl hynny.**

1. National Assembly for Wales Named Day Motion NDM1270 tabled on 10 December 2002
2. National Assembly for Wales Named Day Motion NDM1974 tabled on 28 May 2004
3. The 1997 California Environmental Protection Agency (EPA) *Health effects of exposure to environmental tobacco smoke*
   Full report:
   http://www.oehha.org/air/environmental_tobacco/finalets.html
   Executive Summary: http://www.oehha.org/pdf/exec.pdf
4. The 1998 Joint Department of Health, Department of Health and Social Services, Northern Ireland, The Scottish Office Department of Health and the Welsh Office *Report of the Scientific Committee on Tobacco and Health (SCOTH Report)* http://www.archive.official-documents.co.uk/document/doh/tobacco/part-2.htm
5. Scientific Committee on Tobacco and Health (SCOTH) *Secondhand Smoke: Review of Evidence since 1998 Update of evidence on health effects of secondhand smoke*
   http://www.advisorybodies.doh.gov.uk/scoth/PDFS/scothnov2004.pdf
6. The World Health Organisation (WHO) 1999 *International consultation on environmental tobacco smoke and child health: consultation report* http://www.who.int/tobacco/research/en/ets_report.pdf
7. *The Chief Medical Officer (CMO) for England's Annual Report 2002* http://www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/Publications/AnnualReports/AnnualReportsBrowsableDocument/fs/en?CONTENT_ID=4094860&MULTIPAGE_ID=4873781&chk=dOaScU
8. British Medical Association (BMA) 2002 *Towards smoke-free public places* http://www.bma.org.uk/ap.nsf/Content/Smokefree
9. IARC Monographs Vol 83 *Tobacco Smoke and Involuntary Smoking.* International Agency for Research on Cancer, Lyon, France, 2004, ISBN 92 832 1283 5
10. Sargent RP, Shepard RM and Glantz SA: BMJ 2004; 328; 977-980 (published 24 April 2004)
11. Pechacek TF, Babb S: BMJ 2004; 328; 980-983 (published 24 April 2004)
12. Chen R, Environmental tobacco smoke and lung function in employees who never smoked: the Scottish MONICA study *Occup Environ Med* 2001; 58; 563-568
13. MN Bates, J Fawcett, S Dickson, R Berezowski and N Garrett Tobacco smoke exposure. *Tobacco Control* 2002;11;125-129
14. David Cohen and Cathy Lisles, University of Glamorgan: *Modelling the Impact of a Ban on Smoking in Public Places in Wales*
15. Office of Tobacco Control: *Smoke Free Workplaces in Ireland A One Year Review*
16. Jamrozik K: BMJ 2005; 330; 812 (published 9 April 2005)
17. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 23 September 2004 Question 68
18. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 10 February 2005 Question 419
19. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 11 November 2004 Question 105

20. Enstrom JE, Kabat GC: BMJ 2003; 326; 1057 (published 17 May 2003)
21. Pechacek TF, Babb S: BMJ 2004; 328; 980-983 (published 24 April 2004)
22. Smith R Comment from the Editor BMJ 2003;327:505 (published 30 August 2003)
23. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 11 November 2004 Question 161
24. National Assembly for Wales: Committee on Smoking in Public Places - 11 November 2004 (SPP(2)-03-04(p.2)
25. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 23 September 2004 Question 7
26. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 13 January 2005 Question 305
27. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 13 January 2005 Question 322
28. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 23 September 2004 Question 86
29. Griffiths J. *Tobacco at Work, Guidelines for local authorities. Achieving the best outcomes.* NHS Health Scotland / ASH Scotland / Convention of Scottish Local Authorities. Edinburgh, 2004. ISBN 1 84485 111 7
30. Repace J, Kawachi I, & Glantz SA Fact sheet on second hand smoke *1999.* Online at: http://www.repace.com/factsheet.html
31. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 13 January 2005 Questions 247 to 261
32. National Assembly for Wales: Committee on Smoking in Public Places - 17 March 2005 (SPP(2)-03-05(p.4)
33. National Assembly for Wales: Committee on Smoking in Public Places - 13 January 2005 (SPP(2)-01-05(p.4)
34. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 10 February 2005 Question 416
35. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 10 February 2005 Questions 434 to 447
36. Scollo M, Lay A, Hyland A and Glantz SA. Review of the qualities of studies on the economic effects of smoke-free policies on the hospitality industry. *Tobacco Control* 2002;12: 13-20.
37. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 9 December 2004 Question 172
38. Glantz SA, Smith LRA. The effect of ordinances requiring smoke-free restaurants and bars on revenues. A Foll-up. American Journal of Public Health 1997; 87: 1687-1693 http://www.apha.org/journal/abstracts/abs1oct.htm
39. Adam O Goldstein, MD, Sobel, RA. Environmental tobacco smoke regulations have not hurt restaurant sales in North Carolina; University of North Carolina School of Medicine; 1998 http://www.ash.org.uk/html/publicplaces/html/pubbrief.html
40. Fáilte Ireland press notice dated 6 January 2005
41. The Wanless Report, (February 2004) *Securing Good Health for the Whole Population.* Available online from the Treasury website at: http://www.hm-

treasury.gov.uk/consultations_and_legislation/wanless/consult_wanless04_final.cfm
42. Revenue Commissioners Data - 1994 to 2004
43. Farrelly MC, Evans WN, Sfekas AE. The impact of workplace smoking bans: results from a national survey. *Tobacco Control* 1999; 8: 272–277
44. BBC Press Release 9 September 2004
45. Lader D and Meltzer H. 2002. *Smoking related behaviour and attitudes.* ONS 2003
46. Bauer JE, Hyland A, Li Q, Steger C, Cummings KM (forthcoming). Longitudinal Assessment of the Impact of Smoke-Free Worksite Policies on Tobacco Use. Under review for the *New England Journal of Medicine*
47. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 13 January 2005 Question 327
48. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 9 December 2004 Question 181
49. National Assembly for Wales: Committee on Smoking in Public Places - 13 January 2005 (SPP(2)-01-05(p.4)
50. National Assembly for Wales: Committee on Smoking in Public Places - 23 September 2004 (SPP(2)-02-04(p.4)
51. Dryden v Greater Glasgow Health Board 1992
52. Marckx-v-Belgium A/31 (19790 2 EHRR 330)
53. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 10 February 2005 Question 346
54. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 13 January 2005 Question 313
55. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 13 January 2005 Question 307; 308
56. National Assembly for Wales: Record of Proceedings - 10 February 2005 Question 346
57. Written evidence on behalf of the four Welsh Chief Constables dated 1 November 2004

**ATODIAD**

**YMATEBWYR I YMGYNGHORI YSGRIFENEDIG**

*** Yn dynodi'r rhai a roddodd dystiolaeth lafar hefyd**

| | |
|---|---|
| 1 | Cymdeithas Cynhyrchwyr Glanhawyr Aer* |
| 2 | Amicus |
| 3 | Ash yng Nghymru* |
| 4 | Association of Licensed Multiple Retailers |
| 5 | Asthma UK Cymru |
| 6 | Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru |
| 7 | B |
| 8 | British Heart Foundation |
| 9 | British Hospitality Association |
| 10 | British Institute of Innkeeping |
| 11 | British Lung Foundation |
| 12 | British Medical Association Wales* |
| 13 | British Thoracic Society |
| 14 | Caerphilly Health Alliance |
| 15 | Cancer Research UK Cymru |
| 16 | Cardiff & Vale NHS Trust |
| 17 | Cardiff & Vale NHS Trust University Hospital of Wales – Brenda Rees, Head of Midwifery and Nursing |
| 18 | Cardiff Health Alliance |
| 19 | Carmarthenshire County Council |
| 20 | Carmarthenshire Local Health Board |
| 21 | Chartered Institute of Environmental Health, Wales* |
| 22 | Chief Constables of Wales |
| 23 | Christopher Bailey |
| 24 | City & County of Swansea Environment Department |
| 25 | Clive James |
| 26 | Conwy Community Health Council |
| 27 | Council of the City and County of Swansea – Environment Cabinet Advisory Committee |
| 28 | Cwmtillery Ward Partnership Board* |
| 29 | D E Davies |
| 30 | D J Walters |
| 31 | D J Watkins |
| 32 | Denbighshire County Council |
| 33 | Diabetes UK Cymru |
| 34 | E. Jones |
| 35 | Federation of Environmental Trades Association |
| 36 | Forest* |
| 37 | Gallaher Group Plc |
| 38 | Gerallt N Williams |
| 39 | Glenys & Roy Harding |
| 40 | Graham Cross |
| 41 | Gwent Community Health Council |

| | |
|---|---|
| 42 | Gwynedd Local Health Board & Council |
| 43 | Health Professions Wales |
| 44 | Ian Walsh & Iris Chalenor |
| 45 | J R Freeman & Son |
| 46 | Jack and Pat Whittard |
| 47 | John Ridge |
| 48 | Joint submission from New York Nightlife Association, Empire State Restaurant and Tavern Association and the United Restaurant and Tavern Owners |
| 49 | Kate Weston |
| 50 | Katie Burgess |
| 51 | Keith Downey |
| 52 | Licensed Victuallers (Wales) Ltd* |
| 53 | Lucy Kay |
| 54 | Mary Jones |
| 55 | Merthyr Tydfil County Borough Council |
| 56 | Monmouthshire Health Alliance |
| 57 | Mr A. J. Fox |
| 58 | Mr and Mrs Thomas |
| 59 | Mr J. Edwards |
| 60 | Mr E. Jenkins |
| 61 | Mrs Margaret Howells |
| 62 | Mrs S. Seaward |
| 63 | Mrs T. Owen |
| 64 | National Association of Cigarette Machine Operators* |
| 65 | National Childrens Home Cymru |
| 66 | National Public Health Service |
| 67 | Neath & Port Talbot Community Health Council |
| 68 | North Wales Fire and Rescue Service* |
| 69 | Pembrokeshire Local Health Board |
| 70 | Phillip Morris Ltd |
| 71 | Pontypridd Constituency Labour Party |
| 72 | Pontypridd Rhondda Community Health Council |
| 73 | Professor David Cohen, University of Glamorgan*<br>Health Economics Research Unit |
| 74 | Public Health Association Cymru* |
| 75 | Robin Cullen |
| 76 | Rosemary and David Rees |
| 77 | Roy Castle Lung Cancer Foundation |
| 78 | Royal College of Physicians |
| 79 | Samantha McIntosh– member of The Chartered Society of Physiotherapy |
| 80 | Swansea Local Health Board |
| 81 | The Chartered Society of Physiotherapy |
| 82 | The Imported Tobacco Products Advisory Council |
| 83 | The Royal College of Midwives |
| 84 | Tobacco Manufacturers' Association* |
| 85 | Tobacco Workers' Alliance* |

| | |
|---|---|
| 86 | University of Aberdeen* |
| 87 | University of Glamorgan* |
| 88 | University of Stirling and the Open University, Centre for Tobacco Control Research - Professor Gerard Hastings* |
| 89 | University of Wales College of Medicine |
| 90 | Vale of Glamorgan Local Health Board |
| 91 | Wales Council for Voluntary Action |
| 92 | Wales Tourist Board |
| 93 | Wales TUC Cymru* |
| 94 | Welsh Consumer Council |
| 95 | Welsh Local Government Association* |
| 96 | Welsh Public Health Association |
| 97 | Wrexham Local Health Board |